Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KW/00525/17
Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

SeneddCYPE@assembly.wales

4 Ebrill 2017

Annwyl Lynne

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 21 Mawrth yn gofyn am eglurhad ynghylch dau o'r bwriadau polisi sy'n deillio o Fil Addysg Uwch ac Ymchwil Llywodraeth y DU ("y Bil"). Hoffwn hefyd achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am ei waith a'i gefnogaeth i'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r Bil.

Y Fframwaith Rhagoriaeth mewn Addysgu

Derbyniais lythyr gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru ar 16 Ionawr, a anfonwyd at bob Aelod o'r Cynulliad, yn amlinellu ei bryderon mewn perthynas â'r Bil. Ymatebais ar 6 Chwefror yn datgan fy mod yn cydnabod ac yn rhannu rhai o'r pryderon a nodwyd gan yr Undeb ynghylch cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth mewn Addysgu. Nid yw'r meini prawf ar gyfer gweithredu'r Fframwaith Rhagoriaeth mewn Addysgu yn debyg i'r rhai y byddai Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno oherwydd nad ydym yn rhannu'r un dull marchnata o ran diwygio addysg uwch â'r hyn a geir yn Lloegr. Wedi dweud hynny, mae Llywodraeth y DU wedi gwneud nifer o newidiadau i'r Fframwaith Rhagoriaeth mewn Addysgu a oedd ar waith cyn pasio'r Bil sy'n golygu bod sefydliadau yng Nghymru yn gweithredu dulliau sy'n debycach i'w cyd-sefydliadau yn Lloegr. Mae'r rhain yn cynnwys ystyried cyd-destun addysg uwch yng Nghymru drwy hyfforddiant ar gyfer aseswyr, caniatáu i wybodaeth gyd-destunol a baratowyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Phrifysgolion Cymru gael ei chyflwyno gyda cheisiadau gan sefydliadau yng Nghymru, a sicrhau y bydd cyflwyno darpariaeth Gymraeg yn cyfrannu at yr asesiad hwnnw.

Rwyf hefyd yn ymwybodol bod rhai aelodau o'r sector addysg uwch yng Nghymru yn ystyried y gallai cymryd rhan yn y Fframwaith Rhagoriaeth mewn Addysgu fod yn angenrheidiol am resymau cystadleuol ac o ran enw da. Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i lwyddiant lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ein sefydliadau addysg uwch ac nid wyf am iddynt fod o dan anfantais o gymharu â gweddill y DU. Mae cymryd rhan yn y Fframwaith Rhagoriaeth mewn Addysgu yn wirfoddol ac ar hyn o bryd, cyfrifoldeb sefydliadau o Gymru fel cyrff ymreolaethol yw penderfynu a ydynt am gymryd rhan yn y polisi hwn gan Lywodraeth y DU.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Wedi dweud hynny, rwy'n ymwybodol bod y Bil yn destun diwygiadau pellach yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi (Mawrth 2017). Mae'r cymal yn y Bil a oedd yn datgan bod angen i Weinidogion Cymru roi caniatâd i ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru gymryd rhan yn y trefniadau Fframwaith Rhagoriaeth mewn Addysgu wedi cael ei ddileu o'r Bil. Mae hyn o ganlyniad i ddiwygiad anllywodraethol y cytunwyd arno yn Nhŷ'r Arglwyddi. Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, bydd y Bil yn caniatáu i ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru wneud cais i gymryd rhan yn y trefniadau heb fod angen caniatâd Gweinidogion Cymru. Mae fy swyddogion ar ddeall bod yr Adran Addysg yn bwriadu i'r ddarpariaeth i Weinidogion Cymru roi caniatâd mewn perthynas â chyfraniad darparwyr addysg yng Nghymru gael ei hailgyflwyno yn y Bil cyn iddo gael ei basio.

Mae fy swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â swyddogion yr Adran Addysg mewn perthynas â'r Bil ond mae Llywodraeth Cymru yn parhau i wrthwynebu ffioedd cost lawn neu'n agos at gost lawn. Nid ydym yn credu y dylai addysg uwch gael ei threfnu ar sail marchnad. Fodd bynnag, mae'n rhaid bod sector addysg uwch Cymru yn gallu gweithredu ar draws ffiniau cenedlaethol, ac ymateb i ddiwygiadau yn Lloegr gan barhau i fod yn gystadleuol ar yr un pryd mewn amgylchedd sydd â llifoedd sylweddol o fyfyrwyr o dros y ffin. Nododd adroddiad Diamond (a derbyniodd Llywodraeth Cymru) y dylai sefydliadau yng Nghymru fod yn gallu codi ffioedd ar lefel debyg i'r rhai a godir yn Lloegr. Fodd bynnag, hoffwn fod yn gwbl glir na fydd ffioedd hyfforddi yng Nghymru yn gysylltiedig â graddau'r Fframwaith Rhagoriaeth mewn Addysgu. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i osod lefelau ffioedd hyfforddi yn ôl ei meini prawf ei hun, gan ystyried cynaliadwyedd ariannol, sut rydym yn cynnal ein natur gystadleuol ryngwladol a'r effaith ar fyfyrwyr. Yn ogystal, rwyf wedi egluro wrth Lywodraeth y DU nad wyf am weld gallu sefydliadau Cymru i recriwtio myfyrwyr rhyngwladol yn cael ei gysylltu â'r Fframwaith Rhagoriaeth mewn Addysgu.

Cyllid ymchwil

Bydd Bil Addysg Uwch ac Ymchwil y DU yn cyflwyno newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff gwaith ymchwil ei ariannu yn y DU drwy greu corff newydd, Ymchwil ac Arloesedd y DU (UKRI). Gwneuthum ddatganiad i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 31 Ionawr 2017 ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad gan yr Athro Ellen Hazelkorn ar ddiwygio addysg ôl-orfodol yng Nghymru. Byddaf yn ymgynghori'n fuan ar gynigion i sefydlu un awdurdod strategol, i oruchwylio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Ar hyn o bryd cynigir bod yr awdurdod newydd yn gyfrifol am gynllunio, ariannu, contractio, sicrhau ansawdd, monitro ariannol, archwilio a pherfformiad. Bydd yr ymgynghoriad hefyd yn gosod ein cynigion ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau cyllid ymchwil i'r awdurdod newydd.

Yn unol ag argymhellion yr Athro Hazelkorn, cynigiais fod swyddogaethau cyfredol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn cael eu trosglwyddo i'r Awdurdod newydd, a fyddai'n gweithredu hyd braich o Lywodraeth Cymru. Rwyf wedi rhoi addewid na fydd y newidiadau hyn yn effeithio ar yr ymreolaeth a'r rhyddid academaidd y mae ein prifysgolion yn eu mwynhau. Byddwn yn ystyried yn yr un ymgynghoriad y ffordd orau o ymateb i'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno bellach ar lefel y DU mewn perthynas ag ymchwil ac arloesedd drwy greu'r UKRI.

Yn gywir



Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education